# Cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi gofal, dysgu a datblygiad plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol. Byddwch yn gallu cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol drwy ddarparu gofal ac anogaeth, eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau a phrofiadau, a chefnogi plant a phobl ifanc ac eraill, yn unol â gweithdrefnau'r lleoliad

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am anghenion plant neu bobl ifanc
2. arsylwi plant neu bobl ifanc i ddarganfod eu hanghenion unigol ac unrhyw heriau o ran cyfranogiad
3. dilyn y cynllun unigol ar gyfer plant neu bobl ifanc fel sail i'w cefnogi
4. annog a dathlu ymdrechion a chyflawniadau plant neu bobl ifanc
5. rhoi cymorth a gofal sy'n addas i ddewisiadau, anghenion a galluoedd plant neu bobl ifanc
6. nodi a defnyddio ffyrdd o weithio sy'n addas i ddewisiadau ac anghenion plant neu bobl ifanc wrth gyfathrebu
7. nodi a defnyddio cymhorthion, cyfarpar, a dyfeisiau neu adnoddau digidol i gefnogi plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
8. addasu amgylcheddau i sicrhau bod plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn cyfrannu gymaint â phosibl
9. cynnig amrywiaeth o leoedd, profiadau a rhyngweithiadau i blant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
10. defnyddio cyfleoedd i blant neu bobl ifanc gymryd eu tro neu rannu lle
11. cefnogi plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol i weithio drwy heriau
12. gweithio ag eraill i gefnogi plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
13. cyfrannu at adborth ynghylch cynnydd plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
14. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol
15. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gefnogi plant neu bobl ifanc ag anghenion ychwanegol, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion plant a phobl ifanc
2. camau datblygiad plant
3. dylanwad diwylliant a chefndir ar blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
4. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
5. sut mae addasu lleoedd a phrofiadau i alluogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol i gymryd rhan
6. sut gall chwarae gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
7. sut mae trefniadau integreiddio a chynnwys yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle
8. rôl perthnasoedd a rhwydweithiau cymorth o ran cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
9. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
10. anghenion ychwanegol penodol plant a phobl ifanc a'r dylanwad ar eu datblygiad
11. dylanwad niwrowahaniaeth ar lesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
12. sut mae addasu dulliau cyfathrebu i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
13. y cymhorthion, y cyfarpar, a'r dyfeisiau ac adnoddau digidol gwahanol y gall plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol eu defnyddio
14. sut mae adnabod ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
15. strategaethau i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn ystod cyfnodau o straen neu drallod
16. sut mae cynorthwyo rheoleiddio emosiynol plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
17. y newidiadau a allai effeithio ar blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
18. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
19. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol
20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau

perthnasol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

21. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

22. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol, a sut i fynd i'r afael â hyn

23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD237 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Anghenion ychwanegol, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |